O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 624 (Cy. 103)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid yr A470 i Gylchfan Pentre-bach yr A4060, Merthyr Tudful) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiad Cyflymder Dros Dro) 2025

Gwnaed *23 Mai 2025*

Yn dod i rym *1 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4060, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid yr A470 i Gylchfan Pentre-bach yr A4060, Merthyr Tudful) (Gwaharddiadau Traffig a Chyfyngiad Cyflymder Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mehefin 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn hwn, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Atal dros dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwyso

7.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau na'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Mai 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro a Therfyn Cyflymder 30mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A4060 o'i chyffordd â Chylchfan Pentre-bach hyd at ei chyffordd â Chylchfan Abercannaid yr A470.

Llwybrau Dargyfeirio

Bydd traffig yr A470 sy'n teithio tua'r gogledd a thua'r de sy'n dymuno cyrraedd yr A4060 drwy Gylchfan Abercannaid yn cael ei ddargyfeirio tua'r gogledd i Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed, yna tua'r dwyrain i ailymuno â'r A4060 tua'r de drwy Gylchfan Cyfnewidfa Dowlais Top yr A465.

Bydd traffig sy'n dymuno teithio tua'r de ar Gylchfan Pentre-bach yr A4060 yn cael ei ddargyfeirio tua'r gogledd i Gylchfan Cyfnewidfa Dowlais Top, yna tua'r gorllewin ar hyd yr A465 i ailymuno â'r A470 wrth Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed.

Bydd traffig yr A465 sy'n dymuno ymuno â'r A470 tua'r de drwy fynd ar yr A4060 yn cael ei ddargyfeirio tua'r gorllewin i Gylchfan Cyfnewidfa Cefn Coed i ailymuno â'r A470.